

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	14 RHAGFYR 2011
TEITL YR ADRODDIAD:	CYFLWYNO ADOLYGIADAU DATBLYGU PERSONOL AR GYFER AELODAU
ADRODDIAD GAN:	UCHEL SWYDDOG DATBLYGU – ADNODDAU DYNOL
SWYDDOG CYSWLLT:	MIRIAM WILLIAMS (est. 2512)
PWRPAS YR ADRODDIAD:	RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cefndir

Lansiwyd Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Hydref 2005 i wella'r cymorth a'r datblygiad a roddir gan Awdurdodau i Aelodau ac i gydnabod a rhannu arferion da.

Mae'r Siarter yn sicrhau bod gan gynghorwyr ddealltwriaeth glir o'u swyddogaethau a'u bod yn cael hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau ynghyd â chymorth ac arweiniad ar sut i gyflawni eu swyddogaethau sy'n esblygu'n gyson.

Hyd yma, yn ôl CLIC, mae deg awdurdod lleol, pob Awdurdod Tân ac Achub a phob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi ennill statws Siarter eisoes.

O 2012, bydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn gosod dyletswyddau newydd ar bob awdurdod lleol i ddarparu cefnogaeth a datblygiad "digonol" ar gyfer pob Cynghorydd. Bydd cynnydd gyda'r cynllun ADP felly yn dangos ymrwymiad parhaus Cyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu ei Aelodau Etholedig a bwrw ymlaen i wneud cais am statws Siarter.

Lle ydym ni yn awr?

Wrth weithio tuag at y cais hwnnw, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Aelodau yn ogystal â disgrifiadau swydd a manylebau personol ar gyfer Aelodau. Y cam nesaf yn y broses o wneud cais am statws Siarter yw cychwyn Adolygiadau Datblygiad Personol. Mae amseriad y rhain yn gyfleus hefyd oherwydd eu bod yn cyd-ddigwydd gyda'r fframwaith gwerthuso cymwyseddu sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ar gyfer staff.

Mae'r Gweithgor Datblygu Aelodau wedi cytuno y dylem, yn y lle cyntaf, dreialu'r cynllun gyda Chadeiryddion, Is-Gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Dylai'r Arweinyddion Grwpiau gynnal y cyfweiliad adolygu datblygiad ar gyfer Aelodau eu pleidiau eu hunain, neu, yn achos Aelodau Digyswllt, dylai Cadeirydd y Cyngor roi'r cyfweiliad.

Ym mis Hydref 2011, dosbarthwyd dogfennau mewn perthynas â'r cynllun i'r rheini a fydd yn rhan o'r cynllun peilot. Roedd hynny'n cynnwys nodiadau canllaw a ffurflen pro-fforma i'w chwblhau ac i gofnodi manylion ynghylch y meysydd datblygu a drafodwyd. Gweler Atodiad 1.

Yn ogystal, trefnwyd sesiynau hyfforddi i gefnogi'r broses, gan sicrhau fod y rheini sy'n cyfweld ynghyd â'r rheini sy'n cael eu cyfweld yn glir ynghylch y gofynion a bod pawb yn gyfarwydd gyda'r gwaith papur cyn i'r cyfweiliadau gychwyn.

Yn hytrach na llunio cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer pob Aelod, penderfynwyd defnyddio'r profiadau a'r canfyddiadau unigol i'w bwydo i mewn i Gynllun Datblygu Aelodau ehangach y Cyngor. Defnyddir yr atborth o'r broses hon gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol i roi siâp i'r Cynllun Datblygu Aelodau hyd at Mai 2012 a thu draw i hynny.

Gobeithir, yn y pen draw, y gellir datblygu cynlluniau sydd wedi eu teilwrio ar gyfer aelodau unigol. Bydd hyn yn dibynnu ar eu hanghenion ac ar yr amod bod adnoddau digonol ar gael.

Disgwylir y bydd yr holl gyfweiliadau wedi eu cwblhau a sylwadau ar y gofynion datblygu wedi eu cyflwyno i'r Uned AD erbyn 1 Rhagfyr 2011.

Yn ogystal, anogwyd y rheini sy'n cymryd rhan i wneud sylwadau adeiladol ar y broses gyffredinol fel bod modd i'r Grŵp Datblygu Aelodau eu hystyried a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn ymestyn y cynllun i bob Aelod Etholedig.

Casgliad

Bydd cynnydd gyda'r ADP a'r cais am statws Siarter yn rhoi tystiolaeth nid yn unig o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu Aelodau, ond bydd hefyd yn sicr o gyfrannu tuag at gryfhau cais yr Awdurdod i adnewyddu ei statws Buddsoddwyr Mewn Pobl yn gynnar yn 2012.

Miriam Williams

Uwch Swyddog Datblygu – Adnoddau Dynol

Tachwedd 2011

ATODIAD 1

Ffurflen ar gyfer Adolygiad o Ddatblygiad Personol

A fyddech cystal os gwelwch yn dda â chwblhau'r ffurflen a dod â hi i'r cyfarfod. Mae'r ffurflen hon yn gyfrinachol i chi ac i'r person fydd yn cynnal eich adolygiad ac eithrio'r daflen olaf a fydd yn cael ei defnyddio gan Reolwr AD y Cyngor a'i staff.

- 1. Beth yw fy swyddogaethau a fy nghyfrifoldebau cyfredol?** (h.y. fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelod Portffolio, Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Sgrïwtini, Cynllunio a Gorchmynion neu Archwilio, cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol neu bartneriaethau ac aelod ward ac ati.)

- 2. A oes unrhyw dasgau neu dargedau penodol y mae'n rhaid i mi eu cyflawni? Sut ydw i yn bwriadu cyflawni'r targed / targedau ac erbyn pa bryd?**

- 3. Beth ydwyf i angen ei wybod a medru ei wneud i ymgymryd â fy swyddogaethau'n effeithiol?** (Efallai y bydd eich disgrifiad swydd, manyleb bersonol, Cynllun Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor a'ch cofnod hyfforddiant eich hun o gymorth i chi yma a byddwch yn cael copïau cyn y cyfarfod).

- 4. Pa agweddau o fy amryfal swyddogaethau ydw i'n teimlo'n hyderus yn eu cylch?**

- 5. Pa sgiliau a gwybodaeth ydw i wedi eu cael ers yr Etholiad diwethaf ym Mai 2008 a sut cafodd y rhain eu datblygu?**

- 6. A oes unrhyw feysydd yr wyf yn teimlo'n llai hyderus yn eu cylch neu rai yr hoffwn eu datblygu er mwyn fy ngalluogi i fod yn fwy effeithiol yn fy swyddogaethau cyfredol neu fy swyddogaethau yn y dyfodol?**

- 7. A oes unrhyw rwystrau a all fy atal rhag ymgymryd â fy swyddogaethau mewn modd effeithiol? (Gall y rhain fod yn faterion personol, sefydliadol neu wleidyddol a all lesteirio llwyddiant).**

- 8. Petawn yn cael fy ethol i'r Cyngor am y tro cyntaf ym mis Mai 2012, beth yn fy marn i fyddai'n ddefnyddiol o ran sesiynau cynefino / datblygu ar gyfer eu hargymell i eraill? (Bwriedir hyn i gynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu Rhaglen Gynefino ar gyfer Aelodau newydd).**

<p>Y meysydd yr hoffwn i ei datblygu yw:</p>	<p>Y dull datblygu yr wyf yn ei ffafrio (e.e. edrych ar arferion da cydnabyddedig mewn Awdurdodau eraill, rhwydweithio gyda chymheiriaid sy'n Aelodau mewn Awdurdodau eraill, gweithdai ymarferol, e ddysgu, seminarau, cymwysterau ffurfiol ac ati).</p>
<p>Sgiliau (e.e. cwrdd â rheolwyr, technegau holi, cyfweiliadau gyda'r cyfryngau, iaith, TGCh ac ati)</p>	
<p>Gwybodaeth (e.e. cyfansoddiad, Côd ymddygiad, y system gynllunio, y system drwyddedu, cyllid llywodraeth leol, polisiau'r Cyngor ac ati)</p>	

Ffurflen Adolygu Perfformiad

Enw:	Swydd:
Enw'r Rheolwr Atebol:	Swydd:
Dyddiad:	Teulu'r Swydd:
Swydd-ddisgrifiad cyfredol:	Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/>

Amcanion presennol Cyngor Sir Ynys Môn 2011/12

1. Gwarchod a datblygu economi'r ynys
2. Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy
3. Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg
4. Gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy
5. Codi proffil economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y Cyngor a'r Ynys

Edrych yn ôl – Sut wnes i?

Amcanion/ Tasgau Cyfredol

AMCAN/ TASG 1: Cytunwch a phennwch amcanion SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac o fewn cyfyngiadau amser)	Erbyn Pryd
Adolygiad Cynnydd Chwarterol/ Canol Blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg: Cytunwch a chofnodwch y cynnydd/ camau gweithredu yn erbyn amcanion/ tasgau	Dyddiad(au)
Diwedd Blwyddyn PDR – Cynnydd terfynol yn erbyn amcan/ tasg: Cytunwch a chofnodwch y cynnydd/ camau gweithredu, dyrannwch sgôr allan o 5 (gweler y canllawiau sgorio)	Sgôr: /5

AMCAN/ TASG 2:	Erbyn Pryd
Adolygiad Cynnydd Chwarterol/ Canol Blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Dyddiad(au)



Ffurflen Adolygu Perfformiad

Cynnydd terfynol diwedd blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Sgôr: /5

AMCAN/ TASG 3:	Erbyn Pryd
Adolygiad Cynnydd Chwarterol/ Canol Blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Dyddiad(au)
Cynnydd terfynol diwedd blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Sgôr: /5

AMCAN/ TASG 4:	Erbyn Pryd
Adolygiad Cynnydd Chwarterol/ Canol Blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Dyddiad(au)
Cynnydd terfynol diwedd blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Sgôr: /5

AMCAN/ TASG 5:	Erbyn Pryd
Adolygiad Cynnydd Chwarterol/ Canol Blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Dyddiad(au)
Cynnydd terfynol diwedd blwyddyn yn erbyn amcan/ tasg:	Sgôr: /5

Ffurflen Adolygu Perfformiad

CYMHWYSEDD

Cwsmeriaid yn Gyntaf (Ticiwch pa lefel ✓)	Craidd	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:				
Effeithlonrwydd yn y swydd	Craidd	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:				
Gwaith tîm a phartneriaeth	Craidd	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:				
Sut rydym yn cyfathrebu	Craidd	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:				
Gwelliant parhaus	Craidd	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:				

Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm/ Rheolwr yn unig

Arwain a Rheoli (Ticiwch pa lefel ✓)	Goruchwyliwr/ Arweinydd Tîm	Rheolwr	Sgôr: /5
Eich tystiolaeth diwedd blwyddyn:			

Cyfanswm Sgoriau

Cyfanswm Sgôr Amcan/ Tasg	Cyfanswm Sgôr Cymhwysedd

Ffurflen Adolygu Perfformiad

Datblygiad Personol

Pa hyfforddiant, datblygiad, sgiliau newydd ydych chi wedi eu cyflawni / ennill yn y 12 mis diwethaf? Sut ydych chi wedi defnyddio hyn yn eich gwaith?

--

Sylwadau cyffredinol am y 12 mis diwethaf a/ neu ddyheadau gyrfa (os o gwbl)

Sylwadau'r Gweithiwr	Sylwadau'r Rheolwr

Edrych Ymlaen – beth ydw i am ei wneud yn y 12 mis nesaf?

AMCANION

AMCAN/ TASG 1: Cytunwch a phennwch amcanion SMART ar ddechrau'r flwyddyn PDR newydd	Erbyn Pryd

AMCAN/ TASG 2:	Erbyn Pryd

AMCAN/ TASG 3:	Erbyn Pryd

Ffurflen Adolygu Perfformiad

AMCAN/ TASG 4:	Erbyn Pryd

AMCAN/ TASG 5:	Erbyn Pryd

Datblygiad Personol

Pa gefnogaeth, hyfforddiant a datblygiad ydw i ei angen i gyflawni fy amcanion/ tasgau newydd neu ddiwallu ein safonau cymhwysedd?

Anghenion Hyfforddiant a Datblygu	Sut dylid eu diwallu? Gan gynnwys terfynau amser	Mesur Llwyddiant	Pwy sy'n Gyfrifol?

Llofnod Rheolwr: _____

Dyddiad Llofnodi: _____

Llofnod Gweithiwr: _____

Dyddiad Llofnodi: _____

Ffurflen Adolygu Perfformiad

Gallu Cymraeg: Adolygiad Blynyddol yn Unig

1. Ydych chi'n gweithio ar brif dderbynfa, canolfan alw neu siop un stop?

Ydw Nac ydw

2. Beth ydi Dynodiad Iaith Gymraeg eich swydd (gweler eich Swydd-Ddisgrifiad/ Manylion am yr Unigolyn)?

Hanfodol **Manteisiol** **Dymunol**

3. Mae eich Gallu Cymraeg wedi ei nodi ar hyn o bryd. (I gael dadansoddiad o'r lefelau, gweler y Matrics Asesu Sgiliau Cymraeg)

Gwranddo / Siarad	Darllen / Deall	Ysgrifennu
Lefel	Lefel	Lefel

Ydi hyn wedi newid? Ydi Nac ydi

Os ydi, nodwch eich lefel gallu cyfredol isod:

Gwranddo / Siarad	Darllen / Deall	Ysgrifennu
Lefel	Lefel	Lefel

4. Nodwch unrhyw ofynion hyfforddiant mewn perthynas â Sgiliau Cymraeg.